**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

private.office@senedd.wales

29 Medi 2021

Annwyl Elin,

Rwy'n ysgrifennu atoch am gofnod y trafodion ar gyfer fy ymateb i Ddadl Ceidwadwyr Cymru ar amseroedd ymateb y Gwasanaethau Ambiwlans ar 22 Medi 2021, lle dywedais:

"Felly, mae angen camau cydlynol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, ac er gwaethaf buddsoddiad sylweddol a recriwtio cyflymach i wasanaethau ambiwlans Cymru, fel y nododd rhai, mae adnoddau staff wedi parhau i gael eu heffeithio'n sylweddol gan absenoldeb staff, a hynny drwy gyfuniad o salwch staff, a welodd *gynnydd o 10 y cant ym mis Mehefin 2021*, lefelau hunanynysu – yr effeithir arnynt gan COVID hefyd wrth gwrs – gwarchod, gwyliau blynyddol – a ohiriwyd, wrth gwrs, i gynifer o staff o ganlyniad i'r ymateb brys i'r pandemig".

Mae'n ddrwg gennyf ddweud bod y ffigur y cyfeiriais ato (mewn print italig) uchod yn anghywir. Mewn gwirionedd, tyfodd lefel salwch staff yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i 10 y cant, yn hytrach na chymaint â 10 y cant fel y nodais yn fy ymateb. Gan fod hyn yn ffeithiol anghywir, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi drefnu i gyhoeddi'r cywiriad hwn ochr yn ochr â chofnod y trafodion.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.